


Cyflwr addysg ac ymarfer  
meddygol

# Adroddiad y gweithlu 2024

Crynodeb gweithredol



Cyngor  
Meddygol  
Cyffredinol

# Crynodeb gweithredol


## Y cynnydd mwyaf erioed yn nifer y meddygon trwyddedig yn cael ei yrru gan feddygon o dramor sy'n ymgymryd â swyddi a gyflogir yn lleol

Rhwng 2022 a 2023, cynyddodd nifer y meddygon trwyddedig ar y gyfradd gyflymaf ar gofnod ers i ni ddechrau adrodd ar gyflwr addysg ac ymarfer meddygol yn y DU yn 2011. Cafwyd cynnydd o 6% mewn meddygon trwyddedig, sy'n fwy na dwbl y twf cyfartalog o flwyddyn i flwyddyn ers 2011 (2.6%). Mae hyn oherwydd bod y cynnydd mwyaf o flwyddyn i flwyddyn 'yn nifer y meddygon yn ymuno wedi'i gofnodi yn 2023 (+23%), ynghyd â gostyngiad bach iawn yn nifer y meddygon yn gadael (-0.1%).

Mae'r nifer fawr o feddygon sy'n ymuno bob blwyddyn yn golygu nad oedd bron i un o bob deg (9%) o weithlu'r DU yn 2023 yn dal trwydded y DU yn 2022. Mae'r newid hwn yn cynyddu'r pwysau ar allu meddygon i integreiddio gweithwyr newydd i'r timau gan fod ymreolaeth yn datblygu gyda phrofiad. Rhaid i waith cynllunio'r gweithlu y dyfodol ystyried y gallu i hyfforddi, arwain a chefnogi gweithwyr newydd i gynnal safonau proffesiynol uchel.

Yn 2023, roedd dros ddwy ran o dair o'r rhai a ymunodd (68%) yn raddedigion o'r tu allan i'r DU, a enillodd eu Cymhwyster Meddygol Sylfaenol dramor. Tyfodd y grŵp hwn o lai na hanner (47%) y rhai a ymunodd yn 2017. Mae'r ffaith bod nifer uchel o raddedigion o'r tu allan i'r DU yn ymuno yn golygu ei bod yn hanfodol bod sesiynau cynefino meddygon yn cael eu teilwra i fod yn gynhwysol ar gyfer meddygon o amrywiaeth eang o gefndiroedd.

**Ffigur 1: Newid canrannol o flwyddyn i flwyddyn yn nifer y meddygon trwyddedig, 2012–2023**




Mae data ar gael i ni yng Nghymru a Lloegr sy'n dangos mai nifer y meddygon a gyflogir yn lleol sy'n tyfu gyflymaf o gymharu â grwpiau eraill. Rhwng 2019 a 2023, roedd cynnydd o 75%, o 21,000 i 36,831, mewn meddygon trwyddedig. Mae hyn yn llawer mwy na'r cynnydd yng Nghymru a Lloegr yn nifer y meddygon ar y gofrestr arbenigwyr (13%), neu'r gofrestr meddygon teulu (9%) dros yr un cyfnod. Yn 2023, roedd dwy ran o dair (66%) o feddygon mewn swyddi a gyflogir yn lleol yng Nghymru a Lloegr wedi cael Cymhwyster Meddygol Sylfaenol y tu allan i'r DU, fel y gwnaeth ychydig dros bedair

rhan o bump (81%) o feddygon Arbenigol ac Arbenigwyr Cyswllt yng Nghymru a Lloegr.

Yn ogystal â mynd ati'n effeithiol i integreiddio meddygon sy'n ymuno o dramor, rhaid cael llwybrau gyrfa agored a theg. Bydd cyflawni hyn yn rhoi mwy o foddhad yn y swydd, gan helpu i gadw staff a helpu i sicrhau llinell gadarn o hyfforddwyr ac arweinwyr ar gyfer gweithlu'r dyfodol.

**Ffigur 2: Meddygon trwyddedig nad ydynt ar y naill gofrestr na'r llall nac o dan hyfforddiant ac sy'n gweithio yng Nghymru a Lloegr, yn ôl swydd dan contract gyda'r GIG, 2014–2023**



## Mae bron i 12,000 o feddygon sy'n gweithio mewn swyddi a gyflogir yn lleol wedi cwblhau ail flwyddyn sylfaen


Ers 2012, mae cyfran gynyddol o feddygon wedi cymryd mwy a mwy o amser y tu allan i hyfforddiant ffurfiol ar ôl cwblhau'r ail flwyddyn sylfaen (F2) mewn hyfforddiant ôl-raddedig. Nid oedd ychydig dros draean (34%) o'r rhai a gwblhaodd F2 yn 2011 wedi cael hyfforddiant craidd neu arbenigol yn 2012. Ers hynny, mae'r gyfran honno wedi cynyddu, i'r graddau nad oedd tri chwarter (75%) o garfan F2 2022 wedi dechrau hyfforddiant craidd neu arbenigol yn 2023.

Yn 2023, nid oedd 11,757 o feddygon trwyddedig a oedd wedi cwblhau F2 yn y 12 mlynedd blaenorol erioed wedi cael hyfforddiant craidd nac arbenigol. O ystyried bod mwy a mwy o raddedigion o'r tu allan i'r DU yn cael hyfforddiant ôl-raddedig,<sup>1</sup> a bod gan bob blwyddyn garfan newydd o feddygon yn gwneud

cais am hyfforddiant ôl-raddedig am y tro cyntaf, mae cwestiynau ynghylch a oes gan systemau hyfforddi'r DU y gallu i hyfforddi'r holl feddygon sydd eisiau ymuno. Os bydd yr amodau presennol yn parhau, mae'n debygol iawn y bydd y grŵp hwn yn parhau i dyfu.

Mae llawer o resymau pam mae meddygon yn dewis gweithio mewn swyddi a gyflogir yn lleol yn hytrach na chael hyfforddiant ôl-raddedig ffurfiol. Dau o'r cymhellion a nodwyd amlaf mewn ymchwil a gomisiynwyd gan y GMC oedd yr angen am seibiant o'r amgylchedd hyfforddi a cheisio gwella iechyd a llesiant.<sup>2</sup> Mae angen i systemau gofal iechyd y DU fyfrio ar hyn ac ystyried sut y dylid cynllunio a threfnu hyfforddiant a datblygiad gyrfa. Ar ben hynny, mae nifer sylweddol a chynyddol o feddygon yn dysgu ac yn datblygu sgiliau mewn swyddi a gyflogir yn lleol ond, ar y cyfan, nid ydynt yn cael eu cydnabod yn ffurfiol nac yn arfaethedig. Gallai methu â gwneud hynny greu carfan fawr o feddygon nad yw eu harbenigedd yn cael ei gydnabod ac y bydd eu cynnydd posibl i fod yn hyfforddwyr ac arweinwyr yn y dyfodol yn fwy heriol.

**Ffigur 3: Meddygon trwyddedig yn 2023 a gafodd flwyddyn hyfforddi F2 (2012–2022) ond nad ydynt wedi cael hyfforddiant craidd neu arbenigol, yn ôl amser ers y flwyddyn F2 ddiweddaraf**



## Mae llwyth gwaith hyfforddwr yn heriol a bydd y cynnydd arfaethedig ymysg myfyrwyr meddygol y DU yn creu galw ychwanegol am oruchwyliaeth a hyfforddiant

Mae goruchwylwyr clinigol ac addysgol yn tynnu sylw at y ffaith eu bod yn wynebu llwyth gwaith sy'n anghynaliadwy o uchel o gymharu â meddygon eraill, ac mae'r data yn dangos eu bod i gyd yn goruchwyllo mwy a mwy o feddygon dan hyfforddiant. Mae hyn yn peri pryder ac yn arwydd bod angen ymdrechion i sicrhau bod hyfforddwr yn cael eu hamddiffyn yn well rhag gorweithio, a bod hyfforddi'n parhau i fod yn swydd ddeniadol.

Yn ogystal â'r pwysau presennol, bydd y cynnydd mewn lleoedd mewn ysgolion meddygol a ymrwymwyd iddynt ledled y DU yn cynyddu llwyth gwaith goruchwylwyr clinigol ac addysgol ymhellach tra byddant yn fyfyrwyr, ac ar ôl iddynt raddio. Ar sail yr amcanestyniadau presennol, rydym yn amcangyfrif y bydd 6,213 yn rhagor o raddedigion o'r DU yn ymuno â'r proffesiwn bob blwyddyn erbyn 2034. Bydd y myfyrwyr meddygol ychwanegol a graddedigion newydd o'r DU yn rhoi mwy o bwysau ar y system wrth iddynt ymgymryd â'u haddysg a'u hyfforddiant gan oruchwylwyr clinigol ac addysgol. Ar yr un pryd, gallai'r galw am amser goruchwylwyr clinigol ac addysgol gan gydweithwyr y tu allan i hyfforddiant ffurfiol, a'r rhai yn y tîm amlddisgyblaethol ehangach, gynyddu hefyd.


Er bod yn rhaid i nifer y goruchwylwyr clinigol ac addysgol gynyddu, mae'r un mor bwysig bod eu hamser i gefnogi meddygon dan hyfforddiant yn cael ei ystyried a'i ddiogelu'n ddigonol yng nghynlluniau eu swydd. Mae'n galonogol bod Strategaeth Gweithlu Addysg GIG Lloegr<sup>3</sup> yn cydnabod y ddau ffactor hyn. Os nad yw capasiti addysgwyr yn cael ei ddiogelu a'i ehangu, mae risg ddifrifol na fydd cynnydd mewn lleoedd mewn ysgolion meddygol yn cynhyrchu'r cyflenwad o feddygon medrus sydd ei angen ar y GIG ar gyfer y dyfodol.

## Erbyn hyn, mae mwy o feddygon o leiafrifoedd ethnig na meddygon gwyn

Mae amrywiaeth ethnig y gweithlu wedi cynyddu ers 2012, ond mae wedi tyfu'n arbennig o gyflym o 2016 ymlaen (Ffigur 4). Cynyddodd nifer y meddygon o leiafrifoedd ethnig bron i wyth gwaith yn fwy na meddygon gwyn rhwng 2016 a 2023 — cynnydd o 78% mewn meddygon o leiafrifoedd ethnig o'i gymharu â chynnydd o 10% ar gyfer meddygon gwyn.

Mae tystiolaeth gadarn yn dangos bod meddygon o leiafrifoedd ethnig yn wynebu llawer mwy o rwystrau yn eu gyrfaedd o gymharu â meddygon gwyn, gyda gwahaniaethau mewn cyrhaeddiad drwy hyfforddiant ôl-raddedig ac anghymesurededd yn yr atgyfeiriadau a dderbyniwn gan gyflogwyr meddygon yn ddwy enghraifft allweddol.<sup>4</sup> Mae'n ddyletswydd ar bob parti i gael gwared â gwahaniaethu ac annhegwch—ac mae'n rhaid cymryd camau parhaus i fynd i'r afael â hyn os ydym am gadw'r rhan hanfodol a datblygiadol hon o'n gweithlu.

Ffigur 4: Meddygon trwyddedig yn ôl ethnigrwydd, 2012–2023



## Casgliadau

Mae gweithluoedd y DU yn wynebu newid sylweddol, a rhaid i systemau gofal iechyd y DU ymateb i sicrhau bod cleifion yn cael y gofal sydd ei angen arnynt. Mae meddygon sy'n ymuno o dramor wedi arwain at nifer y meddygon i dyfu ar y gyfradd gyflymaf ar gofnod yn ystod y tair blynedd ar ddeg ers i Cyflwr addysg ac ymarfer meddygol gael ei gyhoeddi. Dyma'r prif reswm bod mwy o feddygon o leiafrifoedd ethnig yn y gweithlu o gymharu â meddygon gwyn. Ar yr un pryd, mae nifer y meddygon gwrywaidd a benywaidd bron yn gyfartal. Mae'n hanfodol bod unrhyw fath o wahaniaethu neu annhegwch ym mywydau gwaith meddygon yn cael eu datgelu, eu hwynebu a'u dileu i sicrhau bod pob meddyg yn gallu cyflawni ei lawn botensial. Mae gan bob parti ran i'w chwarae yn hyn o beth.

Er mai meddygon sy'n ymuno o dramor yw'r prif reswm y tu ôl i'r cynnydd yn nifer y meddygon a gyflogir yn lleol, mae cyfraniad mawr a chynyddol wedi bod hefyd gan raddedigion diweddar y DU. Mae mwy a mwy o feddygon

sydd wedi cwblhau F2 yn mynd i swyddi a gyflogir yn lleol, ac maent bellach yn aros yn y swyddi hynny am gyfnodau hirach. Mae hyn wedi arwain at y grŵp yn dod yn rhan sylweddol o'r gweithlu. Mae eu twf yn golygu ei bod yn gynyddol bwysig bod systemau gofal iechyd y DU yn addasu llwybrau hyfforddiant a gyrfa i gydnabod y sgiliau a'r profiad a enillir yn y swyddi hyn.

Rheswm arall dros newid yw'r heriau presennol o ran capasiti a nodwyd ymysg meddygon sy'n hyfforddi meddygon eraill. Mae hyfforddwyr yn dweud bod y llwyth gwaith yn heriol ar hyn o bryd, a chyn bo hir bydd cynnydd mawr yn nifer yr ysgolion meddygol yn y DU, sy'n golygu y bydd rhagor o raddedigion yn y DU yn ymuno â'r gweithlu ac angen hyfforddiant. Mae'n hanfodol bod amser ar gyfer hyfforddiant yn cael ei ddiogelu a bod anghenion hyfforddi systemau'r DU yn y dyfodol yn cael eu cefnogi'n llawn.

Mae'r penodau canlynol yn darparu'r dystiolaeth sy'n sail i'r naratif hwn, yn ogystal â rhagor o ddata a gwybodaeth am y gweithlu.

Ebost: [gmc@gmc-uk.org](mailto:gmc@gmc-uk.org)

Gwefan: [gmc-uk.org](http://gmc-uk.org)

Rhif Ffôn: 0161 923 6602

